



Awgrymiadau ar gyfer swyddogion arholiadau – Cofrestriadau

Mae'r CGC a'r cyrff dyfarnu (AQA, CCEA, OCR, Pearson a CBAC) wedi llunio'r awgrymiadau hyn i helpu swyddogion arholiadau gyda chofrestriadau **TGAU, TAG UG a Safon Uwch** .

Gwybodaeth am gofrestriadau (gan gynnwys data sylfaenol) a gwybodaeth darparwr MIS gan Cyrff Dyfarnu

- 1 Sicrhewch eich bod yn defnyddio canllawiau cyfredol y cyrff dyfarnu. Mae gwefannau cyrff dyfarnu yn rhoi gwybodaeth wedi'i diweddarau ar sut i gyflwyno cofrestriadau, codau cofrestru, yn ogystal â gwybodaeth am ddyddiadau allweddol ar gyfer cofrestriadau hwyr, newid haenau a thynnu ymgeiswyr yn ôl.

AQA	<u>Entries (aqa.org.uk)</u>
CCEA	<u>Entries Information CCEA (entries@ccea.org.uk)</u>
Eduqas	<u>Cofrestriadau (eduqas.co.uk)</u>
OCR	<u>Make Entries (ocr.org.uk)</u>
Pearson	<u>Making Academic Entries (qualifications.pearson.com)</u>
CBAC	<u>Cofrestriadau (wjec.co.uk)</u>

Mae dwy ffordd o gyflwyno cofrestriadau i gyrff dyfarnu – defnyddio safle allrwyd diogel y corff dyfarnu neu gyflwyno eich cofrestriadau drwy EDI/A2C gan ddefnyddio System Gwybodaeth Rheoli (MIS).

- 2 Os ydych chi'n cyflwyno eich cofrestriadau drwy EDI/A2C, sicrhewch eich bod wedi lawrlwytho y data sylfaenol diweddaraf gan y corff dyfarnu. Gwiriwch eu gwefan am fersiynau wedi'u diweddarau.

- 3 Sicrhewch eich bod hefyd yn gyfarwydd â'r wybodaeth sy'n cael ei llunio gan eich darparwr MIS.
Mae'n bosibl y bydd gan ddarparwyr MIS gwestiynau cyffredin a fideos i'ch helpu chi. Ni all gyrff dyfarnu helpu gyda phroblemau MIS.

Manylion yr ymgeisydd

4 Lle bo'n bosibl, defnyddiwch enw llawn cyfreithiol yr ymgeisydd, cyn belled â'i fod yn llai na 40 nod.
Peidiwch â defnyddio enwau wedi'u byrhau neu lysenwau. Cofiwch – yr enwau sy'n cael eu cyflwyno wrth brosesu cofrestrïadau yw'r enwau fydd yn cael eu hargraffu ar dystysgrifau ymgeiswyr.

5 Sicrhewch fod dyddiad geni ymgeiswyr yn y fformat cywir.
Mae'r dyddiad geni yn bwysig oherwydd mae gofynion oedran isaf ar gyfer cymwysterau penodol, h.y. cyfres TGAU Tachwedd (Saesneg Iaith a Mathemateg) ar gyfer canolfannau yn Lloegr.

Dangosydd Ymgeisydd Unigryw (UCI)

6 Mae'r Dangosydd Ymgeisydd Unigryw (UCI) yn orfodol ar gyfer pob ffeil a anfonir drwy Gymhwysiad AC2 Transport. Sicrhewch fod gan bob ymgeisydd rif UCI.

Mae gwybodaeth am rifau UCI a chyfrifiannell i wirio bod y rhif UCI yn y fformat cywir ar gael ar [wefan y CGC](#).

7 Os yw ymgeisydd wedi cael ei gofrestru ar gyfer cymhwyster o'r blaen, bydd ganddo ef/hi rif UCI yn barod.

Os yw ymgeisydd wedi ymuno â'ch ysgol neu goleg, dylech gysylltu â'u hysgol neu goleg blaenorol fel y gellir defnyddio'r rhif UCI cywir.

Fel arall, gofynnwch i'r ymgeisydd ddarparu eu datganiad ymgeisydd o ganlyniadau rhagarweiniol neu eu tystysgrif arholiad a fydd yn dangos eu rhif UCI.

Ffeiliau cofrestru EDI

8 Gwiriwch eich bod wedi cyflwyno eich ffeiliau cofrestru i'r cyrff dyfarnu. Weithiau, mae canolfannau yn meddwl eu bod wedi cyflwyno ffeiliau cofrestru pan nad ydynt wedi gwneud hynny. Gwiriwch y log anfon A2C (*A2C sent log*) i sicrhau eich bod wedi anfon ffeiliau cofrestru i'r cyrff dyfarnu.

9 Bydd eich System Gwybodaeth Rheoli (MIS) yn cynhyrchu un ffeil cofrestrïadau ar gyfer pob cyfres. Dylech anfon un ffeil cofrestrïadau EDI i'r corff dyfarnu ar gyfer y gyfres. Rhaid i ffeiliau dilynol fod yn ffeiliau cywiriadau.

10 Wrth gyflwyno ffeiliau cywiriadau i gofrestrïadau i gyrff dyfarnu, dylai'r rhif ar ddiwedd pob ffeil cywiriadau gynyddu o un bob tro. Os na ddilynir y confensiwn hwn, gallai ffeiliau gael eu trosysgrifo gan ddileu cywiriadau blaenorol.

Cofrestrwch ymgeiswyr ar gyfer manyleb unwaith yn unig

11 Ar gyfer cymwysterau TGAU gyda haenau, e.e. TGAU Mathemateg, TGAU Gwyddoniaeth, dim ond ar gyfer **un haen** dylech gofrestru ymgeisydd: peidiwch â chofrestru ymgeisydd ar gyfer yr Haen Sylfaenol a'r Haen Uwch.

Gyda chefnogaeth yr uwch arweinydd perthnasol, sicrhewch fod athrawon yn penderfynu a ddylid cofrestru ymgeisydd ar gyfer yr Haen Sylfaenol neu'r Haen Uwch **cyn cyflwyno cofrestrïadau** .

12 Ar gyfer cymwysterau ble mae opsiynau cofrestru gwahanol yn y fanyleb, dylech gofrestru ymgeisydd ar gyfer un opsiwn yn unig.

Unwaith eto, gyda chefnogaeth yr uwch arweinydd perthnasol, sicrhewch fod athrawon yn penderfynu pa opsiwn dylid cofrestru ymgeisydd ar ei gyfer **cyn cyflwyno cofrestrïadau**. Dylai athrawon wirio codau'r opsiynau'n ofalus.

Cymwysterau unedol

Mae'n bosibl bod rhai cymwysterau y mae ymgeiswyr yn eich ysgol neu goleg yn eu hastudio yn gymwysterau unedol.

Ble mae cymhwyster yn unedol, bydd ymgeiswyr yn sefyll sawl uned, ar draws cyfresi arholiadau gwahanol weithiau, er mwyn derbyn cymhwyster.

13 Sicrhewch eich bod yn gyfarwydd â'r broses gofrestru ar gyfer cymwysterau unedol.

Cofrestrïadau ar gyfer unedau – rhaid cofrestru ymgeisydd ar gyfer pob uned y bydd yn ei chwblhau yn y gyfresi arholiadau honno. Mae hyn yn cynnwys unedau asesiad dan reolaeth/gwaith cwrs/asesiad di-arholiad, yn ogystal ag unedau arholiad wedi'u hamserlennu.

Codau cyfnewid cymhwyster (a elwir yn godau cofrestru ardystiad neu ddyfarniad pwnc hefyd) – pan mae ymgeisydd yn dymuno cael dyfarnu cymhwyster, mae angen cod cyfnewid cymhwyster hefyd. Bydd hyn ar ddiwedd y cwrs yn y gyfresi arholiadau derfynol.

Rhaid cofrestru'r cod cyfnewid cymhwyster **yn ogystal â'r** cofrestrïadau ar gyfer unedau unigol.

14 Cyn cyflwyno'r cod(au) cyfnewid cymhwyster i'r corff dyfarnu, gwiriwch bod yr ymgeisydd wedi cael ei gofrestru ar gyfer y cyfuniad cywir o unedau.